GADWYN BRO

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych
Gweinidog: Y Parch Ddr Andras Iago – Ffon- 07778511672.
Ionawr 2018 *Rhif 082*

Blwyddyn newydd dda i chi bob un!

Erbyn i hyn gyrraedd eich dwylo bydd y dyddiau wedi dechrau ymestyn hyd cam ceiliog. Efallai na fydd y newid yn amlwg o ddydd i ddydd, ond o wythnos i wythnos cawn weld y dyddiau yn mynd yn hirach.

Mae sôn am gam byr y ceiliog yn gwneud i mi feddwl am ddywediad athro i mi oedd yn wreiddiol o Swydd Gaerhirfryn. Ei ffordd yntau o annog dyfalbarhad oedd yr ymadrodd 'Inch by inch, it's a cinch'. Camau bach sy'n mynd ymhell!

Mae hi'n gyfnod yr addunedau eto fyth. Ys gwn i pa mor hir fydd ein haddunedau ni'n para eleni? Dyddiau? Wythnosau? Neu hyd yn oed fisoedd? Am ba hyd fyddwn ni'n dyfalbarhau?

Wrth edrych drwy'r Beibl dyma ddod o hyd i'r weddi hon gan yr Apostol Paul dros eglwys:
'A rhodded Duw, ffynhonnell pob dyfalbarhad ac anogaeth, i chwi fod yn gytûn eich meddwl ymhlith eich gilydd, yn ôl ewyllys Crist Iesu, er mwyn ichwi, yn unfryd ac yn unllais, ogoneddu Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist.' (Rhuf. 15:5-6)

Beth bynnag yw'n sefyllfa ar ddechrau'r flwyddyn hon, beth am wneud yr adnod hon yn weddi drosom ni'n hunain a thros ein heglwysi? Fe ddaw pob diwrnod â her newydd i bob un ohonom, ond mae'n Duw ni'n addo rhoi nerth i ni drwy ei Ysbryd i fyw er ei ogoniant.

Astudiaethau Beiblaidd

Bydd astudiaethau Beiblaidd yn ailgychwyn ar 17 Ionawr am 1.30 y.p. Croeso cynnes i bawb!

DYDDIADUR

Cinio'r Ofalaeth
Cynhelir Cinio Nadolig
yn y Capel Mawr
Dydd Gwener, Ionawr 15fed
am 12 dydd. Ar pris yn £12.00
A fuasai y cynrychiolwyr yn defnyddio yr un daflen archebu ac oedd argael mis Rhagfyr os gwelwch yn dda

Astudiaethau Beiblaidd

Bydd astudiaethau Beiblaidd yn ailgychwyn ar 17 Ionawr am 1.30 y.p. Croeso cynnes i bawb!

RHAGHYSBYSIAD

Nos Sul 18fed Mawrth 2018
Cyngerdd yng Nghapel y Pentre
gyda Côr Cytgan Clwyd

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Sul, Ionawr 14
2.00 – Parch Eifion Jones
Dydd Sul , Ionawr 21
2.00 – Parch Andras Iago
Dydd Sul, Ionawr 28
10.00 – Parch Nesta Davies

Ar hyn o bryd mae Trebor Roberts a Dei Griffiths yn yr Infirmary. Dymunwn wellad buan i'r ddau ohonynt. A dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i bawb.

BRWCWS

Dydd Sul, Ionawr 7ed
Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 2.00
Dydd Sul, Ionawr 14eg
Ysgol Sul am 10.00
Mr Peter Smith am 2.00
Nos Fercher, Ionawr 17eg
Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws am 7.00
"Cip olwg ar Dubai" – Gaynor Prew ac Eiry Jones
Dydd Sul, Ionawr, 21ain
Ysgol Sul am 10.00
Gwasanaeth y prynhawn am 2.00 i'w drefnu
Dydd Sul, Ionawr 28ain
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Andras Iago am 2.00

Anfonwyd 14 bocs Nadolig, ar ran yr Ysgol Sul, i elusen T4U. Diolch i Lis Edwards, Rhian, Cari a George am eu danfon i'r ganolfan gasglu yng Nghyffordd Llandudno.

DYFFRYN

Dydd Sul Ionawr 7fed
am 11.00 - Parch John Lewis Jones
Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant (Ysgol Sul oedolion am 10.30)
Emyn a Darllen - Gwyn Rowlands
Organ - Glenys
Blodau - Mary

NOS LUN Ionawr 8fed am 7.00
Cyarfod Gweddi
dan ofal Y Gymdeithas

Dydd Sul Ionawr 14eg
am 9.45 Gweinidog Parch Andras Iago
Gwasanaeth/Ysgol Sul plant (Ysgol Sul oedolion 9.15)
Emyn a Darllen - Gwyneth Evans.
Emyn a Darllen plant - Ysgubor Wen
Organ - Iona
Blodau - Olga

Dydd Sul Ionawr 21ain
am 11.00 - Arwel Roberts
Emyn a Darllen - Buddug
Emyn a darllen plant - Ysgubor Efa
Organ - Alaw
Blodau - Gwyneth Evans

Nos Lun 22ain Ionawr am 7.00
Y Gymdeithas - Noson gyda Mike Hughes yn
son am ei waith gyda cwmni olew

Dydd Sul 28ain am 9.45
Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant
Trefniant Lleol
Organ - Lona
Blodau - Helen.

Dalier Sylw caredig
Mae amser Dechrau Gwasanaethau wedi newid.

GELLIFOR

Dydd Sul, Ionawr 7fed
9.45 – Parch John L. Jones
Llywydd– Gareth
Gwasanaeth Dechreuol – Llinos
Cyfeilio – Nia
Blodau Idris

Dydd Sul, Ionawr 14eg
11.00 – Gweinidog
Llywydd – Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Erina
Cyfeilio – Richard
Blodau – Idris

Cinio Cynnil am 12.00 yn Festri Capel Gellifor

Dydd Sul, Ionawr 21ain
Llywydd – Glen
Gwasaneth Dechreuol – Sioned
Cyfeilio – Alaw
Blodau – Huw

Dydd Sul, Ionawr 28ain
9.45 – Trefniant Ni
Llywydd - Gareth
Gwasanaeth Dechreuol – yng ngofal Bryn Tirion
Cyfeilio – Margaret
Blodau – Huw

FRON

Llywydd y mis – Mrs Wendy Lloyd Jones

Dydd Sul, Ionawr 7fed
10.00 – Fron – Cyfarfod Gweddi dechrau'r flwyddyn
Dydd Sul, Ionawr 14eg
10.00 – Capel Mawr – Mr Dafydd Timothy
Dydd Sul, Ionawr 21ain
10.00 – Fron – Cyfarfod Gweddi
Dydd Sul, Ionawr 28ain
11.00 – Fron – Gweinidog – Oedfa Gymun

DIM OEDFA HWYROL YN YSTOD MIS IONAWR

Blodau – yn gyfrifol – Mrs Wendy Lloyd Jones
7fed – Er cof am Noel
21ain – Er cof am Cecil
28ain – Mrs Wendy Lloyd Jones

Croesawu -
7fed – Dilys Davies
21ain – Mr Erfyl Williams
28ain – Mrs Gaynor Prew

Llestri Cymun – Mrs Jois Snelson a Mrs June Howatson.

Cymdeithas Chwiorydd Fron a'r Brwcws. Cynhelir ein cyfarfod nesaf Nos Fercher, Ionawr 17eg pryd y bydd Gaynor ac Eiri yn rhoi cip olwg ar eu hymweliad a Dubai.

Y CAPEL MAWR A SEION

** DALIER SYLW
1. **Ni fydd yna oedfaon hwyrol yn ystod mis Ionawr**
2. **Pan fo'r Gweinidog gyda ni bydd yr oedfa am 11am**

Dydd Sul, Ionawr 7
10am - Y Fron - Cyfarfod Gweddi ar Ddechrau Blwyddyn
Dydd Llun, Ionawr 8
Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 1.30pm
Dydd Sul, Ionawr 14
10am – Y Capel Mawr – Mr Dafydd Timothy, Rhuddlan
Dydd Mawrth, Ionawr 16
Yr Aelwyd am 1.30pm – Sgwrs gan Jean Gwynne
Dydd Sul, Ionawr 21
10am – Y Fron – I'w drefnu
Dydd Sul, Ionawr 28
****11am** - Y Fron -Y Bugail - Oedfa Gymun

Llywydd Y Mis: – Mr Gwilym Luke Jones

Wrth y Drysau:- Y Blaenoriaid

Casglyddion:- Mrs Alwenna Luke Jones

Organydd-
Ionawr 14 – Mrs Doris Williams
Blodau:-
Ionawr 14 - Mrs Olwen Roberts

LLONGYFARCHIADAU
Llongyfarchwn Mr Ronwy Rogers a Mrs Morfudd Edwards ar ddathlu'u penblwydd yn 90 mlwydd oed yn ddiweddar. Hefyd Mr a Mrs Tom Williams ar ddathlu'u priodas ddiemwnt. Dyma'r trydydd pâr priod o'r eglwys i gyrraedd y garreg filltir nodedig hon yn ddiweddar.

CORWYNT CARIAD
Diolch o galon i'r holl aelodau a chyfeillion yr eglwys a gyfrannodd tuag at ymgyrch Corwynt Cariad. Trosglwyddwyd £1,300 i'r gronfa ganolog ynghyd â ffurflenni Rhodd Gymorth a rydd i'r Cyfundeb yr hawl i wneud cais am £142.50 ychwanegol.

Cyfraniadau 2017
Gair i'ch atgoffa - bydd y Trysorydd yn cau'r llyfrau ar Ragfyr 31ain, 2017.

Yr Aelwyd
Dechreuwyd cyfarfod mis Tachwedd gan Freda Evans yn ddarllen cerdd Carneddog i'r Frigad Dan o hen lyfryn gyhoeddwyd ym 1901.

Croesawyd y wraig wadd gan Mair Jones. Roedd Nia Ritchie wedi dod atom i siarad am ei gwaith gyda'r Gwasanaeth Tan. Mae'n dod yn wreiddiol o Lanfihangel Glyn Myfyr, o deulu gweithgar iawn yn y gymuned.
Canolbwyntiodd yn bennaf at yr ochr atal tan a chadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi, sydd mor bwysig. Roedd ganddi wahanol larymau tan gyda hi yn cynnwys un at y trwm eu clyw.
Diolchwyd i Nia gan Mair ac i Carys Jones a Dorothy Bartley am baratoi paned.
Buom yn meddwl am y rhai sydd ddim yn dda ar hyn o bryd ac yn dymuno'r gorau iddynt.
Roedd hefyd angen llongyfarch Tom a Doris Williams yn dathlu penblwydd priodas ddiemwnt. Hefyd bydd Ronwy Rogers a Morfudd Edwards yn dathlu penblwydd arbennig yn fuan.
Mis Ionawr
Ionawr 8fed..... Cyfarfod Gweddi dechrau'r flwyddyn am 1.30. Croeso i bawb
Ionawr 16.....Sgwrs gan Mrs Jean Gwynne am 1.30 – Croeso i bawb

PENTRE, PRION, GLYN

Dydd Sul, Ionawr 7fed
9.45 Pentre Parch Nesta Davies
Dydd Sul, Ionawr 14eg
9.45 Prion Parch Tudur Rowlands
Dydd Sul, Ionawr 21ain
9.45 Pentre Gweinidog a Cymun
11.00 Prion Gweinidog
Dydd Sul, Ionawr 28ain
9.45 Pentre Cyfarfod Gweddi

MYFYRDOD Y NADOLIG
Diolch i Carys am drefnu'r rhaglen ar ein cyfer. Cawsom wasanaeth amrywiol yn cynnwys carolau, darlleniadau a gweddïau a pharti canu swynol i gyfleu naws y Nadolig. Diolch i ferched Prion am addurno mor hardd, a hyfryd oedd cael y plant a'r bobl ifanc i ymuno i gyd-ganu "Mae'r ser yn Canu" (Robat Arwyn) i ddiweddu.

COFION at Mr Dafydd Roberts, Cwm Parc sydd wedi bod yn yr ysbyty ac i Mrs Mair Hughes ar ol ei llawdriniaeth yn Gobowen, ac i Mrs Glenys Jones Coed y Fron sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, Dymunwn wellhad buan i chwi, ac i'r nifer eraill eto sydd heb fod yn dda yn ddiweddar

CYFARCHION NADOLIG – Diolch i aelodau'r Pentre a Prion am arwyddo'r poster cyfarchion eto eleni. Fydd casgliad o £105.50 yn cael ei anfon at elusen Sant Cyndeyrn.

RHAGHYSBYSIAD -Nos Sul 18fed Mawrth 2018 Cyngerdd yng Nghapel y Pentre gyda Côr Cytgan Clwyd

YSGOL SUL – Siom oedd i holl blant yr Ysgol Sul fod y parti wedi eu ohurio o achos y tywydd, ond chware teg i Sion Corn am ail drefnu a dod a anrhegion ar ôl Gwasanaeth y plant a'r bobl ifanc! Diolch mawr i Sion Corn am yr anrhegion a falch ei fod wedi ei blesio gyda canu da'r plant.

GWASANAETH Y PLANT – Cawsom fore hyfryd dan ofal y plant a'r bobl ifanc yn eu gwasanaeth modern a thrawiadol nadoligaidd. Roedd neges y Nadolig yn cael ei gyfleu mor effeithiol yn y perfformiad, diolch o galon i'r mamau am drefnu ac am eu hyfforddi unwaith eto, a braf oedd cael ymuno â hwy i ganu ar y diwedd. Hyfryd oedd gweld lluniau "Uchafbwyntiau'r Flwyddyn" yn cael eu dangos ar y sgrîn – rydym yn gwerthfawrogi eich holl waith a'ch cyfraniad arbennig i'r Capel ac i'r gymdeithas ehangach.
Hefyd, hoffwn gymeryd y cyfle i ddiolch i Ymddiriedolaeth Tir Mostyn am yr arian tuag at brynu "lap top" newydd i ddefnyddio yng ngwaith yr Ysgol Sul.

GLYN

Pnawn Sul Ionawr 14eg 2018
Cynhelir Oedfa Gymun gyda'r Parch Andras Iago yn gwasanaethu.

Nos Sul Rhagfyr 17eg cafwyd ein gwasanaeth Nadolig wedi ei drefnu gan Brenda gyda'r plant a'r bobl ifanc yn cymeryd rhan.
Braf oedd cael croesawu Parch Andras Iago, Heledd a Mabon bach ynghyd a ffrindiau a theulu i'r gwasanaeth.
Diolchodd Alwyn i Brenda y plant a'r bobl ifanc am wneud eu rhan ac i bawb a gyfranodd at y bwyd a dymunodd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

TREFNANT

Llywydd y Mis : BET ROBERTS

Dydd Sul Ionawr 7fed
10.00 Cyfarfod Teuluol Dechrau'r Flwyddyn 11.00 YSO
Blodau : Rhiannon Owens
Dydd Llun Ionawr 8fed
7.00 pm Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn
Dydd Mawrth Ionawr 9fed
7.00 pm Gwasanaeth Dechrau'r Flwyddyn -
Dr Sally Harper, Tremeirchion
Dydd Sul Ionawr 14eg
10.00 Parch Trevor Lewis 11.15 YSO
3.00 Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau : Rhiannon Owens
Dydd Sul Ionawr 21ain
10.00 Parch T L Williams 11.15 YSO
3.00 Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau : Beryl Roberts
Dydd Sul Ionawr 28ain
9. 45 Parch Andras Iago - gyda phaned i ddilyn
3.30 Parch Andras Iago
Blodau : Beryl Roberts

CYFARFOD GWEITHGAREDDAU Mae'r cyfarfodydd ar brynhawniau Llun yn ail-ddechrau ar Ionawr 22ain 2018 rhwng 2.00 – 4.00 pm. Cyfle i gyfarfod i gyd-addoli, creu nwyddau ar gyfer elusennau a chymdeithasu dros baned. Croeso cynnes i bawb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL Wedi cyfnod llwyddiannus cyn y Nadolig, edrychwn ymlaen at weddill rhaglen y flwyddyn yn ystod y chwe mis nesaf. Ym mis Ionawr, mae Angharad eisioes wedi trefni taith i'r Theatr yn Y Rhyl i weld Pantomeim. Hwyl fawr i chi gyd yno.

CYFARC**HION a DYMUNIADAU GORAU** i bawb sydd wedi bod yn sal yn ddiweddar - nifer ohonoch wedi gallu dod nol i'r gwasanaethau, eraill heb fedru ymuno a ni hyd yn hyn. Cofiwn yn arbennig am Gwyneth Evans sydd wedi gorfod cael ail-lawdriniaeth ar ei ffer ond yn ol yn yr Inffirmari yn Ninbych unwaith eto. Cofion a dymuniadau da atoch oll.

NEGES NESTA

Dechreuodd dathliadau Nadolig yn Gynnar yn Nhrefnant gyda'u ffair Nadolig ar y 25ain o Dachwedd a braf oedd gweld y plant yn chwarae 'n hapus gyda'u ffrind newydd. Ar y 27ain cafodd y Pwyllgor Gweithgareddau wybod eu bod wedi gwneud £700 o elw i'w rannu rhwng y Capel ac Elusen Click Sargeant. Dyma nhw'n cael danteithion blasus yn eu Cyfarfod ola'r flwyddyn.

Bu'r gweinidog a mi'n gwario dwy awr rhwng 30ain hyd Rhagfyr y 3ydd yn codi ymwybyddiaeth i'r banc bwyd yn Nhescos Prestatyn a cheisio cael y cwsmeriaid i gyfrannu 'r bwyd sy'n angenrheidiol i gadw'r Elusen i fynd. Dim ond unwaith y flwyddyn y bydd casgliad o hyn ymlaen ond mae'r siop yn ychwanegu 30% at y cyfanswm. Ond dan ni'n gwerthfawrogi haeloni cyson y Capeli....mae RHOI yn weithred mor anhunanol, a cheisiais i roi i wahanol Elusennau wrth brynu cardiau ac anrhegion eleni, gan gofio geiriau Eseia "Rhaid iti wneud popeth fedri di i helpu'r newynog, a chwrdd ag anghenion y rhai sy'n dioddef."

Teimlwn fy mod yn cyflawni hyn wrth baratoi Hamperi Nadolig i'w rhoi i'r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd a helpu gyda Chinio Nadolig yn St Thomas ar ddiwrnod Nadolig

Yn hen swyddfa'r Aelod Cynulliad rwyf wedi rhoi gwybodaeth am Ymgyrch Cymorth Cristnogol dros y Nadolig – inni geisio peidio â gwastraffu bwydydd y Nadolig yma a meddwl am yr argyfwng sydd mewn cymaint o wledydd , Ac os gwnewch Gyfraniad i Apel Nadolig Cymorth Cristnogol hyd at Chwefror 6ed bydd yn cael ei ddyblu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Darllennwch yr erthygl a'r posteri sydd ar y ffenest , neu ewch i wefan wwwcaid.org.uk/christmas.

Hyfryd oedd cael ymuno â Chapel y Fron yn eu gwasanaethau ar 17eg, a gweld y plant a 'r bobl ifanc yn cymryd rhan a diolch i Wendy Lloyd Jones am baratoi

Yn y Brwcws Elizabeth Edwards a'r rhieni fu'n eu harwain a chafwyd hanes tarddiad yr holl arferion gwahanol sydd gennym adeg y Nadolig a chafwyd ymweliad gan un oedd yn boblogaidd iawn.

Newyddion rhifyn Ionawr o'r Cadwyn Bro,
erbyn dydd Gwener Ionawr 19
Sylwch – e-bost newydd:
meinididdos13@gmail.com
neu: 01745890417